



# Susan Cantrill Williams

## Olrhain

Mae 'Olrhain' yn edrych yn weledol ar sut mae dynoliaeth wedi newid ymddangosiad gweledol tirwedd gogledd Cymru. Gan ddefnyddio fideograffeg o'r awyr fel deunydd ffynhonnell, mae Susan yn llunio delweddau digidol a laser sy'n ymgorffori lluniadu a phaentio.

Mae'r project yn adeiladu ar waith cynharach, 'Drawing from the Land', a ddisgrifiodd yn weledol dirwedd chwarelyddol gogledd Cymru, gan gynnwys Mynydd Parys a'r Gogarth. Yn 'Olrhain', mae Susan yn ailymweld â'r wythien gyfoethog hon o destunau gweledol a throsiadol, gan wthio ei hiaith weledol a'i syniadau ymhellach trwy ddefnyddio technolegau digidol.

Mae 'Olrhain' yn broject Ymchwil a Datblygu gan Gyngor Celfyddydau Cymru gyda'r nod o alluogi Susan i arbrofi gyda thechnolegau digidol i newid ei dull arferol o baentio. Mae Susan wedi defnyddio cyfleusterau fabLAB Arloesi Pontio i wireddu ei syniadau.

Dewch i gwrdd â'r artist a thrafod canfyddiadau ei phroject gyda hi rhwng 12-2pm ddydd Sadwrn 7 Medi. Does dim angen archebu lle, dim ond dod draw.

Fideograffeg gan Charles Levy.

## Trace

'Trace' visually explores how humanity has altered the visual appearance of the north Wales landscape. Using aerial videography as source material, Susan constructs digital and laser manufactured images incorporating drawing and painting.

The project builds on an earlier body of work, 'Drawing from the Land', which visually described the quarried landscape of north Wales including Parys Mountain and The Great Orme. For 'Trace', Susan revisits this rich seam of visual and metaphorical subject matter, pushing her visual language and ideas further through the use of digital technologies.

'Trace' is an Arts Council of Wales Research and Development project aimed at enabling Susan to experiment with digital technologies to change her regular painting practice. Susan has used the facilities at Pontio Innovation's fabLAB space to realise her ideas.

Come and meet the artist and discuss the findings of her project between 12-2pm on Saturday 7th September. No need to book – just call in.

Videography by Charles Levy.